# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**20 MEDI 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio);
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 11:55am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J. Davies | 3.1 - Cais Cynllunio E37648 Adeiladu mynediad gât i'r safle o'r enw Penygroes Concrete Works yn ogystal â gwneud gwaith draenio cysylltiedig, y ceir mynediad iddo o'r ffordd gyswllt economaidd (wrthi'n cael ei hadeiladu) a hefyd adeiladu mynediad amaethyddol newydd o'r ffordd gyswllt economaidd yn Penygroes Concrete, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RU | Yn adnabod perchennog y gwaith concrid. |

3. **RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

3.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **E/37648** | **Adeiladu mynediad gât i'r safle o'r enw Penygroes Concrete Works yn ogystal â gwneud gwaith draenio cysylltiedig, y ceir mynediad iddo o'r ffordd gyswllt economaidd (wrthi'n cael ei hadeiladu) a hefyd adeiladu mynediad amaethyddol newydd o'r ffordd gyswllt economaidd yn Penygroes Concrete, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RU**<br><br>**[Sylwer:** Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Davies Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]<br><br>Dywedodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [De] wrth y Pwyllgor, ers cyhoeddi'r agenda a'r atodiad, fod y Pennaeth Trafnidiaeth wedi nodi nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau i'r cais yn amodol ar yr amodau a argymhellir yn yr adroddiad. |

4. **RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **W/18258** | **17 o anheddau, cynllun y safle a ffyrdd mynediad ym Maesyderw, Heol Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin**<br>**SA38 9RD**<br><br>[Cymeradwywyd y cais yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 sy'n ymwneud â darparu cyfran o dai fforddiadwy neu gael cadarnhad gan Bennaeth Eiddo Corfforaethol y Cyngor o ran cytuno â'r casgliadau yn yr asesiad hyfywedd a gyflwynwyd, yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn yr adroddiad.] |
| **W/37415** | **Bwriad i ddymchwel yr amgueddfa cyflymder bresennol ynghyd ag adeilad preswyl a bloc amwynderau i hwyluso'r gwaith o adeiladu amgueddfa newydd traeth y gwibwyr ynghyd ag eco-hostel â 42 o welyau, caffi, lle parcio i gerbydau, a gwaith cysylltiedig o ran tirweddu a seilwaith yn Amgueddfa Cyflymder Pentywyn, Marsh Road, Pentywyn, Caerfyrddin, SA33 4NY** |

**4.2 PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio oherwydd yr amgylchiadau eithriadol dan sylw;**

| | |
|---|---|
| **W/37321** | **Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer pedair llain a lle parcio cyffredinol ar dir ger Wood End/Dukes Meadow, Pentywyn, Caerfyrddin, SA33 4UG**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad uchod, gan ail-bwysleisio’r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Pryderon ynghylch problemau hirdymor â'r system garthffosiaeth annigonol bresennol<br>• Pryderon ynghylch problemau dŵr wyneb a llifogydd gan gynnwys llifogydd llanw<br>• Mae'r safle o fewn 20m i'r nant<br>• Pryderon ynghylch preifatrwydd, ffenestri ochr yn edrych dros y safle<br>• Cymeriad ac ymddangosiad<br>• Pryderon ynghylch diogelwch priffyrdd gan gynnwys<br>  – Cynnydd yn y traffig<br>  – Defnyddiwyd y safle ar gyfer troi lorïau trwm oherwydd pontydd gwan<br>  – Parcio<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd i'r materion a godwyd.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y dŵr wyneb a'r system gwanhad arfaethedig, ac roedd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [De] wedi ymateb yn unol â hynny. |

**4.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **W/37135** | **Adeiladu Preswylfa Anghenion Arbennig ar y tir yng Nghilhir Isaf, Meidrim, Caerfyrddin, SA33 5PX**<br><br>Rhoddodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Dwyrain] grynodeb ar lafar i'r Pwyllgor o lythyr a gafwyd gan Gyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws a gefnogai'r cais.<br><br>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol ar ran yr ymgeisydd yn cefnogi'r cais, drwy dynnu sylw at y rhesymau o ran pam y mae'r breswylfa anghenion arbennig arfaethedig yn ofynnol er mwyn darparu ar gyfer anghenion iechyd arbennig gŵr yr ymgeisydd.<br><br>Wrth ystyried y cais ac yn sgil anghenion meddygol gŵr yr ymgeisydd, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y cais hwn yn un ag amgylchiadau eithriadol, a bernid eu bod yn ystyriaeth berthnasol a oedd, ar yr achlysur penodol hwn, yn drech na'r polisi cynllun datblygu. |

## 5. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 AWST 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 23 Awst, 2018 yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]